Cip 6

# Triciau Ffŵl Ebrill gyda...

# Y Slebogiaid


Mae'r hen Slebogiaid drwg yna wedi bod yn crafu pennau i feddwl am eu hoff driciau Ffŵl Ebrill. Dyma nhw. Ac os ydych chi mewn trwbwl o ganlyniad, beiwch y Slebs!

## Jay-L

Torra siâp chwilen, pry copyn neu greadur dychrynllyd allan o bapur du a'i sticio gyda tap selo neu flwtac y tu mewn i orchudd lamp.

Cofia sdicio arno yn y dydd, pan fydd neb yn dy weld. Yna, fin nos pan mae'n tywyllu, paid mynd yn bell er mwyn gweld pwy bynnag sy'n troi'r lamp ymlaen yn sgrechian mewn braw!

He he!



## Darryl 'Doniol' Lewis

Fel comedïwr gorau Cymru, dw i'n gwybod degau o jocs a thriciau donill iawn. Dyma'r goreuon!

Nabod rhywun hefo trainers a chriai coch? Tynna'r criai iawn a rhoi chery laces yn eu lle... Dddim yn ddoniol iddyn nhw ar ochor y cae pêl-droed yn trio rhoi eu sgidiau 'mlaen, ond doniol ofnadwy i chi gyd fydd yn chwerthin ar eu pen!

Beth am sleifio o gwmpas y tŷ yn newid clociau i fod awr yn gynt.

Fydd pawb yn eistedd rownd y bwrdd yn bwyta brecwast am saith yn lle wyth!






Ydi dy deulu yn ffermwyr neu bobol sy'n gwisgo welintons?

Llenwa nhw hefo peli ping pong y noson gynt!

Fydd 'na dipyn o weiddi pan fyddan nhw'n ceisio eu gwisgo



## Rhian-a

Bydd yn glên hefo brawd neu chwaer fach am newid a chynnig bisged iddyn nhw!

Ond beth nad y'n nhw yn ei wybod ydi dy fod ti wedi crafu'r hufen i ffwrdd a rhoi past dannedd yn ei le!

Hi hi hi!

Rhain yn gweithi'n wych gyda chwstard crims neu oros!



## Leanna Lewis

**Brecwast ben i waered.**
**'Yf fi wedi cael gymaint o sbort gyda hwn ar hyd y blynyddoedd!**

Odi dy chwiorydd neu brodyr yn hoffi squash neu sudd?

Fydd raid i ti baratoi hwn y noson gynt a gyda help oedolyn - pryna jeli coch neu oren a chymysgu gyda dwr fel mae'n dweud ar y paced. Yna rho mewn gwydrau yfed a gadael i setio yn rhywle cudd. Gosod y bwrdd i frecwast a rhoi 'diod' yn barod i bawb.

Tybed fyddan nhw'n ddigon effro i sylwi? Maen nhw'n siŵr o wneud wrth geisio yfed!





Beth am fod yn garedig a rhoi menyn a jam ar dost yn barod ar blatiau pawb?

Ond y 'tost' fydd cardfwrdd siâp tost fyddi di wedi eu gwneud y noson gynt a rhoi menyn a jam arno.

Pwy fydd y cyntaf i sylwi?



Falle mai grawnfwyd neu cereal mae pobol tŷ chi yn ei hoffi yn y bore. Y noson gynt, symud y bagiau grawnfwyd i'r bocsys anghywir.

Mi fydd yna dipyn o grafu pen!

Ac os wyt ti eisiau creu llanast llwyr, beth am guddio 'pryfed' plastig yn eu brecwast hefyd?

Brecwast ben i waered i bawb!

Stori gan Mari Williams Darluniwyd gan Meilyr Gwynn
Wedi ei seilio ar syniad gwreiddiol gan Llinos Jones Williams



6-7 Slebogiaid Cip Ebr19.indd 2 11/03/2019 14:02:01